Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Rhaglen frechu RSV GIG Cymru ar gyfer oedolion hŷn

# Cymorth gweledol i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

## Mae'r wybodaeth hon ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cyflwyno rhaglen frechu RSV y GIG ar gyfer oedolion hŷn ledled Cymru

## Cefndir

Ar 1 Medi 2024, cyflwynodd GIG Cymru raglen frechu RSV reolaidd ar gyfer **oedolion hŷn.** Mae'r rhaglen RSV yn seiliedig ar gyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI)[1].

## Pa Frechlyn RSV sydd ar gael?




- Abrysvo®

**Sut i archebu Abrysvo®**

- Gellir archebu Abrysvo® gan **Immform.**
- Cofiwch ddefnyddio'r cyflenwad priodol wrth archebu ar gyfer **oedolion hŷn.**

## Pwy fydd yn cael cynnig brechlyn RSV, a phryd?

Dylid gwahodd oedolion sy'n troi'n 75 oed i gael eu brechlyn o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd. Mae rhaglen dal i fyny i rai rhwng 75 a 79 oed ar waith ar hyn o bryd.

Mae'r tabl isod yn dangos pa oedolion hŷn sy'n gymwys i gael y brechlyn RSV.

| Oedran | Pryd gallant gael y brechlyn RSV? |
|---|---|
| **74 oed** | Ar neu ar ôl ei ben-blwydd yn 75 oed |
| **Rhwng 75 a 79 oed** | Unrhyw adeg yn ystod yr ystod oedran hon |
| **80 oed neu'n hŷn (os cawsoch eich geni ar ôl 2 Medi 1944)** | Unrhyw adeg |

**A ellir cyd-weinyddu'r brechlyn?**

| Brechlynnau a weinyddir yn gyffredin i oedolion hŷn | A ellir rhoi'r brechlynnau gyda'i gilydd? | |
|---|---|---|
| **Abrysvo® a Shingrix®** | ✔ | |
| **Abrysvo® a Pneumovax 23®** | ✔ | |
| **Abrysvo® a brechlyn COVID-19** | ✔ | |
| **Abrysvo® a brechlyn y ffliw** | ✔ * (peidiwch â'u cyd-weinyddu fel mater o drefn) | *Yn ddelfrydol, ni ddylid rhoi Abrysvo® ar yr un pryd â'r brechlyn ffliw i oedolion hŷn. |

* Gall rhoi Abrysvo® gyda'r brechlyn ffliw tymhorol leihau'r ymateb imiwnyddol i gyfansoddion RSV a'r ffliw (H3N2). Gallai hyn o bosibl leihau'r amddiffyniad rhag clefyd anadlol difrifol ymhlith oedolion hŷn. Fodd bynnag, os credir nad yw'r unigolyn yn debygol o ddychwelyd i gael ei frechlyn ffliw, gellir eu rhoi ar yr un pryd.

## Beth arall ddylwn i ei wybod?

- **Gwahodd** oedolion sy'n troi'n 75 oed o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd i **gael eu brechu**.
- Pan fo'r cyfle'n codi, cynigiwch y brechlyn RSV i'r unigolion hynny sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen dal i fyny.

**A oes angen dosau atgyfnerthu?**

Nac oes. Un dos sydd ei angen ar hyn o bryd. Mae treialon o'r brechlyn wedi dangos bod y brechlyn yn rhoi amddiffyniad da am o leiaf dwy flynedd a'i fod yn debygol o bara'n hirach.

**Cyfeiriadau**


1. Rhaglen imiwneiddio RSV JCVI: Cyngor JCVI, 7 Mehefin 2023 (diweddarwyd 11 Medi 2023) (safle allanol, Saesneg yn unig)



Fersiwn 2 | Hydref 2025


© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru


## Rhagor o wybodaeth

- **Feirws syncytiol anadlol (RSV) - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru – Hyfforddiant** (Saesneg yn unig) (dim ond ar gael i weithwyr gofal iechyd â chyfeiriad e-bost y GIG)
- **RSV Llyfr Gwyrdd Pennod (27a)** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Feirws syncytiol anadlol (RSV) - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Llythyr y Prif Swyddog Meddygol - Brechlyn RSV Awst 2025 - Llywodraeth Cymru** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Cylchlythyr Iechyd Cymru: Gwybodaeth ddiweddaraf am raglen frechu RSV 2025 (WHC/2025/016)** (safle allanol)
- **Cylchlythyr Iechyd Cymru: Cyflwyno rhaglen frechu RSV 2024 (WHC/2024/032)** (safle allanol)
- **Cwestiynau Cyffredin am Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) Iechyd Cyhoeddus Cymru** (Saesneg yn unig)
- **Amserlenni imiwneiddio arferol i Gymru**
- Fideo yn dangos sut i baratoi'r brechlyn Abrysvo®: **Paratoad | Abrysvo® (brechlyn feirws syncytiol anadlol) | PfizerPro UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Adnoddau ***am ddim*** i gefnogi clinigau brechu: **Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- Canllawiau ar Gyfarwyddiadau Grwpiau Cleifion: **Templedi a chanllawiau Cyfeiriadau Grwpiau Cleifion (PGDs) - Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru** (safle allanol)
- Abrysvo® Crynodeb o Nodweddion y Cynnyrch (SmPC): **Powdr a hydoddiant Abrysvo ar gyfer hydoddiad ar gyfer chwistrelliad - SmPC - (emc)** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Cerdyn Melyn | Gwneud meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn fwy diogel** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Abrysvo▼ (brechlyn RSV Pfizer) ac Arexvy▼ (brechlyn RSV GSK): byddwch yn wyliadwrus o gynnydd bach yn y risg o syndrom Guillain-Barré ar ôl brechu mewn oedolion hŷn - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# NHS Wales RSV Vaccination programme for older adults

## Visual aid for Healthcare Professionals

**This information is for health professionals delivering the NHS RSV vaccination programme for older adults across Wales**

## Background

On 1 September 2024, NHS Wales introduced a routine RSV vaccination programme for **older adults**. The RSV programme is based on JCVI advice[1].

## Which RSV Vaccine is available?

- Abrysvo®

**How to order Abrysvo®**

- Abrysvo® can be ordered from **Immform.**
- Remember to use the appropriate supply when ordering for **older adults.**




## Who will be offered an RSV vaccine, and when?

Adults turning 75 years should be invited for their vaccine within 12 weeks of their birthday.
A catch-up programme for those aged 75 to 79 is currently in place.

The table below shows which older adults are eligible for the RSV vaccine.

| Age | When can they have the RSV vaccine? |
|---|---|
| 74 years | On or after their 75th birthday |
| 75 to 79 years | Any time during this age range |
| 80 years or over (if you were born after 2 September 1944) | Any time |

**Can the RSV vaccine be co-administered?**

| Vaccines commonly administered to older adults | Can they be administered together? | |
|---|---|---|
| Abrysvo® and Shingrix® | ✔ | *Ideally, Abrysvo® should not be co-administered with the flu vaccine in older adults |
| Abrysvo® and Pneumovax 23® | ✔ | |
| Abrysvo® and COVID-19 vaccine | ✔ | |
| Abrysvo® and Influenza vaccine | ✔ * (don't routinely schedule) | |

* Giving Abrysvo® with the seasonal influenza vaccine may reduce the immune response to both the RSV and influenza (H3N2) components. This could potentially lower protection against severe respiratory disease in older adults. However, if it is thought that the individual is unlikely to return for their influenza vaccine, they can be given at the same time.

## What else do I need to know?

- **Invite and offer vaccination** to older adults who turn 75 years within 12 weeks of their birthday.
- Opportunistically, offer the RSV vaccine to those individuals eligible for the catch up programme.

**Are booster doses required?**

No. Currently, a single dose is required. Vaccine trials show the vaccine gives good protection for at least two years and is likely to last longer.

**References**

1. JCVI RSV immunisation programme: JCVI advice, 7 June 2023 (updated 11 September 2023)

Version 2 | October 2025 © Public Health Wales NHS Trust

## Further information

- **Respiratory syncytial virus (RSV) vaccination information for health professionals - Public Health Wales**
- **Immunisation training resources and events - Public Health Wales**
- **Public Health Wales - Training** (only accessible to HCPs with an NHS email address)
- **Respiratory syncytial virus (RSV): the Green Book, Chapter 27a - GOV UK** (external site)
- **Respiratory syncytial virus (RSV) programme: information for healthcare professionals - GOV.UK** (external site)
- **CMO Alert RSV Vaccine August 2025 - Welsh Government** (external site)
- **Welsh Health Circular: Update on RSV vaccination programme 2025 - WHC/2025/016** (external site)
- **RSV Frequently asked questions - Public Health Wales**
- **Welsh Health Circular: Introduction of RSV vaccination programme 2024 - WHC/2024/032** (external site)
- **Routine immunisation schedules for Wales - Public Health Wales**
- Video preparation of the Abrysvo® vaccine: **Preparation | Abrysvo®▼ (Respiratory Syncytial Virus Vaccine) | PfizerPro UK** (external site)
- ***Free*** resources to support vaccination clinics: **Health Information Resources - Public Health Wales**
- Guidance on Patient Group Directions: **Patient Group Directions (PGD) - Welsh Medicines Advice Service** (external site)
- Abrysvo® Summary of Product Characteristics (SmPC): **Abrysvo powder and solvent for solution for injection - SmPC - (emc)** (external site)
- **Yellow Card | Making medicines and medical devices safer** (external site)
- **Abrysvo▼ (Pfizer RSV vaccine) and Arexvy▼ (GSK RSV vaccine): be alert to a small increase in the risk of Guillain Barré syndrome following vaccination in older adults - GOV.UK** (external site)